**CYNGOR TREF**
**LLANFAIRFECHAN**
**TOWN COUNCIL**

**Neuadd Gymunedol Tref Llanfairfechan, Ffordd y Pentref, Llanfairfechan LL330AB**
**Maer Cyng Nia Jones** **Dirprwy Faer Cyng Sharne-Marie Bellis**

**AGENDA Nos Fercher Hydref y 1af, 2025**
**CYFARFOD Y CYNGOR TREF, 7yh Siambr Cyngor Llanfairfechan ac ar-lein dros Microsoft Team**

1. Croesawu pawb i'r cyfarfod a rhannu'r wybodaeth weinyddol gyffredinol
2. Derbyn ymddiheuriadau am absenoldeb (DLlL 1972 Atodlen 12)
3. Derbyn datganiadau o ddiddordeb – (Diddordebau personol neu ragfarnus y gellir eu datgelu)
4. Derbyn sylwadau ac ymholiadau gan y cyhoedd
5. Derbyn a chymeradwyo cofnodion Medi'r 10fed, 2025 a rhestr weithredu Hydref (DLlL1972 Atodlen 12)
6. Derbyn yr amserlen arfaethedig ar gyfer is-bwyllgorau, diweddaru rolau a chymeradwyo prosesau
7. Derbyn gwybodaeth ar y prosiect Cydraddoldeb/Equality a'r cynlluniau staffio arfaethedig
8. Derbyn gwybodaeth a chymeradwyo'r broses tuag at becyn cyfrifon newydd
9. Derbyn gwybodaeth am adloniant y Ffair Nadolig a chymeradwyo'r costau
10. Derbyn canlyniadau'r arolwg ar gyfer arolwg marchnad 21/09/2025 a chymeradwyo'r dyddiadau ar gyfer 2026/2027
11. Derbyn cais grant Cymunedol S137 a chynllunio'r gwaith marchnata ar gyfer 2025/26
12. Derbyn a chymeradwyo'r Adroddiad Cyllid a'r taliadau cyfredol ar gyfer Medi'r 10fed, 2025

| **Taliadau i'w cyflwyno** |
|---|
| **1. Taliadau staffio a phensiwn (dogfen i'w rhannu)** |
| **2. Sgipiau Worldcare Ffordd yr Orsaf £258.00 Nant y Berllan £258.00** |
| **3. Viking Glanhawr / papur toiled a cherdyn ar gyfer y digwyddiad coffa £126.76** |
| **4. Amazon Gwariant y prosiect Cydraddoldeb: Gilotîn Papur £49.99/ Bwrdd Sialc £39.50** |
| **5. Nwy a Thrydan British Gas/Electric ar gyfer yr Ardal Gemau Amlddefnydd £40.05** |
| **6. Amazon Gwariant ar yr Ardal Gemau Amlddefnydd: Llinyn y rhwyd Tenis £24.98 Strap canol £13.99** |
| **7. Cyfieithiadau Menter Iaith Medi £448.17** |
| **8. Mind & Environment Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl £1320.00** |
| **9. Amazon Gwefrwr Chromebook £10.99 / Llygoden TG £4.80** |
| **10. CBS Conwy Nawdd Pwll Padlo 2025 £5211** |
| **Taliadau ôl-ddyddiedig** |
| 1. **Cuddfannau Morfa Madryn Paul Haswell £185.00** |

13. Derbyn gwybodaeth am faterion cynllunio:
    1. 0/52611 Tyddyn Drain Ffordd Mount LL33 0HD
    2. 0/52837 11 Bryn Mair LL33 0UN
    3. 0/52841 32 Parc Henblas LL33 0RW
    4. 0/52848 Y Gymdeithas Efengylaidd, Ffordd y Felin, Llanfairfechan, LL33 0TG

    Derbyn gohebiaeth
14. Derbyn adroddiadau o gyfarfodydd a digwyddiadau
15. Derbyn canmoliaethau, cwynion a materion brys i'w dwyn i ystyriaeth a'u cofnodi ar gyfer cyfarfodydd yn y dyfodol

**Nos Fercher, Hydref y 1af, 2025**
**CYFARFOD Y CYNGOR TREF, 7yh Siambr Cyngor Llanfairfechan ac ar-lein dros Teams**

**COFNODION**

**Yn bresennol: Cadeirydd: Dirprwy Faer Sharne-Marie Bellis; Cyng. Charlotte Davies; Cyng. Leena Farhat (ar-lein); Cyng. Rhys Griffiths; Cyng. Chris Jones; Cyng. Alun Rhys Jones; Christine Roberts; Cyng. Preben Vangberg (ar-lein). Clerc y Dref: Jayne Neal, Dirprwy Glerc y Dref: Callum Morrison**

**1. Croesawodd y Dirprwy Faer Sharne-Marie Bellis bawb i'r cyfarfod a rhannodd y wybodaeth weinyddol gyffredinol. Cytunwyd i recordio'r cyfarfod er mwyn llunio'r cofnodion. Penderfynwyd derbyn a nodi**

**2. Derbyn ymddiheuriadau am absenoldeb (DLlL 1972 Atodlen 12)**

**Maer Nia Jones; Cyng. Penny Andow (Cynghorydd Tref a Sir); Cyng. Andrew Hinchliff BEM; Cyng. Gareth Jones**

**Penderfynwyd derbyn a nodi**

**3. Derbyn datganiadau o ddiddordeb – (Diddordebau personol neu ragfarnus y gellir eu datgelu)**

**Eitem 7 – Datgelodd y Cyng. A Rhys Jones a'r Cyng. Rhys Griffiths ddiddordeb personol gan eu bod nhw'n adnabod yr ymgeisydd – ni wnaeth yr un o'r ddau gymryd rhan yn y drafodaeth ond fe wnaethon nhw aros i dderbyn gwybodaeth. Penderfynwyd derbyn a nodi**

**4. Derbyn sylwadau ac ymholiadau gan y cyhoedd**

**Roedd un preswylydd yn bresennol, ac fe wnaethon nhw leisio pryderon am gais cynllunio 0/51286 Dwyrain Gorwel ac unrhyw apêl i Lywodraeth Cymru. Dydy'r mater heb ei restru ar adnodd chwilio am apeliadau Llywodraeth Cymru hyd yma. Rhoddwyd sicrwydd y bydd y Cyngor Tref yn parhau i fod yn gadarn o ran eu safbwynt blaenorol am y mater hwn . Ni fydd cynllun blaendal Cynllun Datblygu Lleol Newydd sydd ar ddod yn cynnwys y safle hwn fel y safle ffafriol a bydd y Cyngor Tref yn canolbwyntio ar y datblygiad 100 – 150 tŷ arfaethedig yng Nghae Ffynnon y mae'r Cynllun Datblygu Lleol Newydd yn ei ffafrio.**

**Penderfynwyd derbyn a nodi**

**5. Derbyn a chymeradwyo cofnodion Medi'r 10fed, 2025, a Rhestr Weithredu Hydref (DLlL1972 Atodlen 12). Cafodd y rhain eu nodi wedi eu darllen a doedd dim materion yn codi ohonyn nhw. Cafodd y rhestr weithredu ei thrafod fel a ganlyn:**

**Digwyddiadau: Gŵyl Merlod Gwyllt 2025 Gweithdai Llusernau dydd Sadwrn y 1af a dydd Sadwrn yr 8fed. Gorymdaith fach a Thwmpath ar ddydd Sadwrn y 1af / Gorymdaith Llusernau a Thân Gwyllt Llanfairfechan digwyddiad dydd Sadwrn Tachwedd yr 8fed. Bydd yr Orymdaith Llusernau yn cychwyn ar Lanfa'r Dwyrain am 6:30yh, bydd yr arddangosfa Tân Gwyllt am 7yh / Digwyddiad Sul y Cofio Llanfairfechan ar Dachwedd y 9fed am 10yb yn Siambr y Cyngor ar gyfer y rheiny sy'n cymryd rhan. Gorymdaith am 10:30 a chychwyn am 10:50 ar gyfer y gwasanaeth / Bwffe'r Maer a Dathliad Gwirfoddolwyr (drwy wahoddiad) dydd Iau, Rhagfyr y 4ydd, bydd yn cychwyn am 6:30yh bwffe, dathliad gwirfoddolwyr DJ a digwyddiad cymdeithasol. Bydd hwn yn ddigwyddiad i glodfori'r holl wirfoddolwyr yn Llanfairfechan.**

**Datblygiadau Cyfredol: Does dim gwybodaeth bellach wedi'i derbyn gan y tîm llifogydd am yr ymgynghoriad. Dywedwyd y bydd y sesiwn ym mis Medi, felly mae eisoes wedi'i ohirio. Mae grŵp preswylwyr wrthi'n paratoi llythyr i CBS Conwy. Mae'r problemau yn yr Ardal Gemau Amlddefnydd bellach wedi distewi oherwydd y paent gwrth-fandaliaeth. Fodd bynnag, mae'r Swyddog Cefnogi Cymuned yr Heddlu wedi dweud eu bod nhw'n awyddus i drefnu Teledu Cylch Cyfyng ar y safle yn sgil y defnydd helaeth o'r cyfleusterau yn yr ardal o amgylch y pwll padlo a'r cae chwarae. Roedd y Cyngor Tref yn bryderus dros ben i glywed am y digwyddiad o dan ymchwiliad yr heddlu, a ddigwyddodd yn gynharach yn yr wythnos a gofynnwyd am drefnu Teledu Cylch Cyfyng ar gyfer y safle ar frys. Bydd hwn ar yr agenda ar gyfer Hydref yr 22ain gyda dyfynbrisiau llawn. Mae'r rhwyd tenis allan o ddefnydd ar hyn o bryd ac mae cyfarpar wedi'i archebu. Fodd bynnag, cytunwyd y dylid canolbwyntio ar bêl-droed a phêl-rwyd fel chwaraeon y gaeaf a chael gwared ar y rhwyd tenis am y tro. / Mae tîm y Cynllun Datblygu Lleol Newydd wedi cynnal sesiwn cyngor gyda Darganfod Llanfairfechan i helpu llunio Cynllun Cynllunio / Cymunedol hybrid a chytunwyd y bu'n gyfarfod defnyddiol. Pwysleisiwyd ar bwysigrwydd y broses hon gan y bydd yn gymorth i ddwyn y datblygwyr i gyfrif a datblygu gweledigaeth ar y cyd ar gyfer y dref yn y dyfodol hyd at 2033. / Estynnwyd diolch i'r Cyng. C Roberts bod yr archwiliad mainc is wedi parhau ac mae wedi'i gwblhau bron. Bydd angen mynd i'r afael â rhan uchaf y dref yn ystod yr wythnosau nesaf. / Mae'n rhaid cwblhau gofynion deddfwriaethol i gofnodi diddordebau ynghyd â llunio Cofrestr Diddordebau'r Cyngor Tref erbyn diwedd Hydref.**

**Cynigwyd gan y Cyng. C Jones Eiliwyd gan y Cyng. R Griffiths Penderfynwyd yn unfrydol i gymeradwyo a nodi**

**6. Derbyn yr amserlen arfaethedig ar gyfer is-bwyllgorau, diweddaru rolau a chymeradwyo prosesau Cafodd yr amserlen drafft arfaethedig ei derbyn fel dogfen weithredol, a chytunwyd y dylai'r tîm staffio fwrw iddi gyda chynlluniau a llunio cylch gorchwyl ar gyfer y pwyllgorau. Cytunwyd y bydd y Cyng. Charlotte Davies a'r Cyng. Leena Farhat yn rhannu'r gwaith adrodd o'r Ysgol Babanod. Clerc i gysylltu gyda'r Pennaeth i gynnig hyn fel gwasanaeth llawn ar gyfer yr ysgolion.**

**Cynigwyd gan y Cyng. R Griffiths Eiliwyd gan y Cyng. C Davies Penderfynwyd yn unfrydol i gymeradwyo a nodi**

**7. Derbyn gwybodaeth am y prosiect Cydraddoldeb/Equality a'r cynlluniau staffio arfaethedig Mae'r cynlluniau ar waith ar gyfer yr Ŵyl Merlod Gwyllt ac maen nhw wedi cychwyn recriwtio ar gyfer y rôl swydd. Derbyniwyd un cais gan weithiwr proffesiynol medrus sydd â phrofiad o weithio yn y maes hyrwyddo a chlodfori'r Gymraeg ac mae'n hanu o Lanfairfechan. Maen nhw wedi'u gwahodd am gyfweliad a bydd y pwyllgor staffio yn adrodd yn ôl. Mae Paned a Sgwrs wedi'i gynllunio i gychwyn ar Dachwedd y 1af yn yr Ŵyl Merlod Gwyllt a chaiff hyn ei hysbysebu yn yr wythnosau nesaf.**

**Cynigwyd gan y Cyng. C Jones Eiliwyd gan y Cyng. C Roberts Penderfynwyd yn unfrydol i gymeradwyo a nodi**

**8. Derbyn gwybodaeth a chymeradwyo'r broses tuag at becyn cyfrifon newydd**

**Cafodd adroddiad cymharu ei ddosbarthu a nodwyd ei fod wedi'i ddarllen. Roedd Clerc y Dref a Dirprwy Glerc y Dref wedi mynd i gyfarfod gyda chynrychiolwyr o Scribe a Rialtas ac mae ganddyn nhw brofiad blaenorol o weithio gyda Sage.**

**Cytunwyd mai Scribe fyddai'r mwyaf addas ar gyfer yr angen a'i fod y gwerth am arian gorau. Tîm Staff i fwrw iddi i sefydlu cyfrif i gychwyn ym mis Ionawr 2026 i sicrhau bod y system ar waith i'w weithredu o'r flwyddyn ariannol newydd ym mis Ebrill 2026.**

**Cynigwyd gan y Cyng. R Griffiths Eiliwyd gan y Cyng. C Roberts Penderfynwyd yn unfrydol i gymeradwyo a nodi**

**9. Derbyn gwybodaeth am adloniant y Ffair Nadolig a chymeradwyo'r costau**

**Cytunwyd y dylid cefnogi Cor y Penrhyn gan ei fod bob amser yn ffefryn yn y farchnad Nadolig. Bydd y rhodd o £200 yn mynd i'w helusen ddewisol Nadolig. Mae'r goeden Nadolig yn cael ei pharatoi ar gyfer Tachwedd y 14eg yn barod ar gyfer lansio Coeden Oleuadau'r Rotari. Diolch i'r Cyng. C Jones am drefnu.**

**Cynigwyd gan y Cyng. C Roberts Eiliwyd gan y Cyng. A Rhys Jones Penderfynwyd yn unfrydol i gymeradwyo a nodi**

**10. Derbyn canlyniadau'r arolwg ar gyfer arolwg marchnad y cyflenwyr 21/09/2025 a chymeradwyo dyddiadau ar gyfer 2026/2027. Derbyniwyd 13 ymateb gan yr arolwg. Roedd yr adborth am y marchnadoedd yn gadarnhaol dros ben – soniodd pob un o'r ymatebwyr am yr awyrgylch braf a'r naws cymunedol, a dywedodd sawl un eu bod nhw wedi dewis ein marchnad ni dros rai eraill. Mae'n dal yn her ceisio denu stondinau bwyd, ac mae mwy o waith yn cael ei gyflawni i ddenu stondinau a faniau bwyd newydd. Cytunwyd y bydd marchnadoedd y gwanwyn ar waith o Chwefror hyd at Fai 2026 a chael gwared ar farchnad Ionawr oherwydd diffyg gwerthiannau. Cytunwyd hefyd y gallai Dirprwy Glerc y Dref fwrw iddi gyda'r syniad o osod arwyddion digwyddiadau ar ochr y ffordd ond nodwyd y bydd angen cyflwyno hyn i'r adran gynllunio felly bydd yn broses tymor hirach.**

**Cynigwyd gan y Cyng. A Rhys Jones Eiliwyd gan y Cyng. C Davies Penderfynwyd yn unfrydol i gymeradwyo a nodi**

**11. Derbyn cais grant Cymunedol S137 a chynllunio'r gwaith marchnata ar gyfer 2025/26**

**Derbyniwyd cais grant gan Llais Lle am daliadau i osod mainc picnic newydd y tu allan i'r cae chwarae ym Mhendalar. Estynnwyd llongyfarchiadau i'r grŵp am eu gwaith i wella'r ardal a hefyd am ennill y cyllid gan Cartrefi Conwy ar gyfer y fainc metel. Cytunwyd cymeradwyo grant o £560.00.**

**Cynigwyd gan y Cyng. C Davies Eiliwyd gan y Cyng. R Griffiths Penderfynwyd yn unfrydol i gymeradwyo a nodi**

**12. Derbyn a chymeradwyo'r Adroddiad Ariannol a'r taliadau cyfredol ar gyfer Medi'r 10fed, 2025**

**Roedd yr wybodaeth wedi'i dosbarthu, a doedd dim materion yn codi o'r adroddiadau a'r rhestr taliadau cyfredol. Bydd trafodaeth gyntaf am yr archebiant drafft yn y cyfarfod nesaf felly bydd gwybodaeth am yr Adroddiad Archebiant a'r archebiant drafft ar gael. Bydd angen cynnwys swm ar gyfer y pecyn cyfrifon newydd a chostau newydd eraill yn yr archebiant.**

**Cynigwyd gan y Cyng. R Griffiths Eiliwyd gan y Cyng. C Roberts Penderfynwyd yn unfrydol i gymeradwyo a nodi**

**13. Derbyn gwybodaeth am faterion cynllunio:**

**1. 0/52611 Tyddyn Drain Ffordd Mount LL33 0HD – Roedd teimlad y byddai coed brodorol yn well yn y cynllun tirlunio. Ni chofnodwyd unrhyw arsylwadau eraill.**

**2. 0/52837 11 Bryn Mair LL33 0UN Ni chofnodwyd unrhyw arsylwadau eraill.**

**3. 0/52841 32 Parc Henblas LL33 0RW Ni chofnodwyd unrhyw arsylwadau eraill.**

**4. 0/52848 Y Gymdeithas Efengylaidd Ffordd y Felin, Llanfairfechan, LL33 0TG Roedd hyn yn ymateb i amodau cymeradwyo. Ni chofnodwyd unrhyw arsylwadau eraill. Penderfynwyd derbyn a nodi**

**14. Derbyn gohebiaeth**

**1. Derbyniwyd sawl e-bost gan breswylwyr ynghylch gwybodaeth y Cynllun Datblygu Lleol Newydd.**

**Caiff rhai o'r pryderon eu hateb yn ystod y broses cynllunio a bydd rhagor o reolaethau ar waith drwy broses y Cynllun Datblygu Lleol Newydd. Mae'r wybodaeth wedi'i hanfon ymlaen at dîm y Cynllun Datblygu Lleol Newydd. Clerc i ymateb gyda sicrwydd bod y Cyngor Tref yn cydweithio'n agos gyda'r Cynllun Datblygu Lleol Newydd i ennill y cytundeb gorau ar gyfer Llanfairfechan. Dylai'r ymateb hefyd bwysleisio pwysigrwydd y cyfnod ymgynghori ac mae'r cyngor tref yn erfyn ar breswylwyr i ymgysylltu gyda'r broses a rhannu eu pryderon.**

**2. Mae'r wybodaeth a dderbyniwyd o ymchwil annibynnol y Senedd yn dangos y newidiadau ers cyflwyno'r cyfyngiad 20mya:**

**Mae'r gostyngiad mewn anafiadau o 25% ar ffyrdd 20/30mya yn ddeuddeg gwaith y gostyngiad ar ffyrdd gyda chyfyngiadau cyflymder uwch. Mae'r effaith gadarnhaol o 20mya yng Nghymru yn fwy na 'blip' ystadegol. O gymharu gyda blwyddyn 2022-23 cyn cyflwyno'r cyfyngiad 20mya, mae anafiadau wedi gostwng ym mhob chwarter. Gwelodd pob un o'r pedwar heddlu ostyngiad mewn anafiadau. Yng Ngogledd Cymru, lle bu i 94% o ffyrdd newid o 30mya i 20mya, bu i'r nifer o anafiadau ostwng 46%. Mae yswirwyr cerbydau yn adrodd llai o hawliadau am ddifrod i gerbydau yn dilyn gweithredu'r newid. Mae cwmni yswiriant Esure wedi adrodd gostyngiad cymharol o 20% mewn hawliadau ceir yng Nghymru ers cyflwyno'r terfyn ledled y wlad. Cafodd yr wybodaeth hon ei derbyn yn gadarnhaol ond nodwyd bod rhai gyrwyr yn dal i beidio â chydymffurfio.**

**3. Taliad ymwelwyr i gefnogi twristiaeth yn dod yn gyfraith Mae peth awgrym y dylid defnyddio arian o'r taliad hwn i ariannu cyfleusterau cyhoeddus megis toiledau ac ati yn llawn. Mae'n rhaid i bob grŵp awdurdod lleol benderfynu sut y byddan nhw'n gwario'r taliad ac felly bydd yn benderfyniad lleol. Fodd bynnag, mae'n debyg na chaiff y broses ei chwblhau yn y dyfodol agos yn sgil yr etholiadau sydd ar y gweill. Mae angen sicrhau ein bod yn ymwybodol o'r holl wybodaeth ddiweddaraf wrth iddi gael ei rhannu. Caiff gweminarau eu darparu dros y misoedd nesaf er mwyn i awdurdodau lleol ddeall y broses.**

**4. Derbyniwyd ymateb am y wal 'sniper' ar Draeth y Gorllewin. Mae Cadw yn dwyn i ystyriaeth ceisiadau i "restru adeiladau unigol yn y fan a'r lle" os yw wedi'i ategu gan wybodaeth newydd sy'n awgrymu y gallai'r adeilad fodloni'r meini prawf ar gyfer rhestru. Does dim gweithdrefn ffurfiol i'w ddilyn nac ychwaith ffurflen i'w chwblhau i wneud cais o'r fath, ond rydym fel arfer yn gofyn i bobl ysgrifennu atom gyda gwybodaeth berthnasol am yr adeilad i'n cynorthwyo i gynnal asesiad ohono. Mae mwy o wybodaeth ar y broses o restru adeilad a pha wybodaeth sydd angen ei chyflwyno i'w ategu ar gael ar ein gwefan drwy'r ddolen isod: https://cadw.gov.wales/advice-support/historic-assets/listed-buildings/spot-listing-requests. Clercod i ymchwilio a ydy'r grŵp cynfilwyr yn awyddus i barhau gyda hyn.**

**Penderfynwyd derbyn a nodi**

**15. Derbyn adroddiadau o wahanol gyfarfodydd a digwyddiadau**

**1. Llywodraethwyr Ysgol Pant Y Rhedyn. Cadeirydd Karen Griffith; Is-gadeirydd Menna Wakeford. Newyddion da bod rhywfaint o waith adfer wedi'i gyflawni ac mae'r toiledau wedi'u huwchraddio a bellach yn edrych yn wych.**

**2. Neuadd Gymunedol Llanfairfechan Mae gwaith ailwampio wedi gwneud gwahaniaeth aruthrol i waith cynnal y neuadd. Yr her ddiweddaraf yw sut i amddiffyn y nyth ystlumod yng ngofod y to. Rydym wedi holi am gyngor ond bydd angen cyflawni gwaith felly bydd angen cyllid ychwanegol. Mae'r neuadd eisoes yn arbed swm sylweddol o arian yn dilyn gosod paneli solar. Roedd y bil tanwydd blaenorol wedi cynyddu i £20,000 y flwyddyn ond roedd bil trydan y mis diwethaf ond yn oddeutu £150. Nodyn atgoffa y bydd y band teyrnged Beatles Complete yn chwarae ar y dydd Sadwrn ac mae dros 200 o docynnau wedi'u gwerthu.**

**3. Cyfarfod Staffio – Mae rôl Dirprwy Glerc y Dref ar gytundeb parhaol bellach, ac mae popeth wedi'i arwyddo. Mae'r tîm staff wrthi'n llunio dogfennau i ddangos y newid o ran oriau a thasgau. Bu'r Dirprwy Faer yn dyst i'r weithred o lofnodi cytundebau a bydd y Clerc yn e-bostio gwybodaeth am y newidiadau i'r ymarferion gweithio.**

**<u>3. Grŵp Ymgysylltu Cleifion y Feddygfa</u> – ni chynhaliwyd cyfarfod. Rhaid mynd i'r afael â'r ymholiad o'r cyfarfod diwethaf.**

**<u>4. Cyfarfod y Clwb Pêl-droed gyda Gefeillio Trefi</u> mae cynlluniau ar waith ar gyfer y daith y flwyddyn nesaf. Mae'r mater prydles yn effeithio ar yr opsiynau cyllid ar gyfer y clwb. Mae CBS Conwy yn awgrymu y gellir brocera'r brydles 20 mlynedd ond bydd yn cymryd amser i'w drefnu. Bydd y clwb Pêl-droed yn anfon e-bost arall at CBS Conwy gyda'r ffigyrau wedi'u diweddaru i geisio bwrw iddi gyda'r gwaith.** **<u>Penderfynwyd derbyn a nodi</u>**

**<u>16. Derbyn canmoliaethau, cwynion a materion brys i'w dwyn i ystyriaeth a'u cofnodi ar gyfer cyfarfodydd yn y dyfodol</u>**

**1. Mae pryder cyhoeddus am ymosodiad difrifol yn ddiweddar yn parhau ac mae Heddlu Gogledd Cymru a'r AS Claire Hughes wedi cyhoeddi datganiad. Gofynnwyd cwestiynau ynghylch pam fod y Cyngor Tref heb gyflwyno datganiad. Roedd hyn oherwydd nad oedd unrhyw beth i'w ychwanegu gan ei fod yn ymchwiliad parhaus. Mae Heddlu Gogledd Cymru wedi cytuno i ddosbarthu'r wybodaeth ganlynol: Roedd digwyddiad fel yr adroddwyd ac roedd yr heddlu'n bresennol yn gyflym. Mae'r dioddefwr wedi'u diogelu ac mae ymchwiliad parhaus. Dylai unrhyw un sydd â gwybodaeth a allai gynorthwyo gyda'r ymholiad gysylltu gyda'r heddlu drwy'r wefan neu wrth ffonio 101, gan ddyfynnu rhif cyfeirnod 25000803571.**

**2. Mae dau lwybr wedi gordyfu gormod fel nad oes modd cerdded arnyn nhw. Mae angen hysbysu CBS Conwy am hyn er mwyn sicrhau caiff mwy o wybodaeth ei chasglu a'i rhannu.**

**3. Aeth y Dirprwy Faer i barti pen-blwydd 100 oed, rhoddodd araith a chyflwynodd dystysgrif. Aeth y Dirprwy Faer i Seremoni Ddinesig Prestatyn yn ddiweddar a bydd yn cynrychioli'r Cyngor Tref yn nigwyddiad Dinesig Penmaenmawr y mis hwn.**

**4. Bydd y cwrs Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl wedi'i ariannu gan Dŵr Anafon a Chyngor Tref Llanfairfechan ar Hydref yr 8fed a'r 9fed. Roedd yn hynod boblogaidd ac mae 16 cynrychiolydd ychwanegol o sefydliadau a busnesau lleol am gymryd rhan. Dyma'r cwrs olaf ar gyfer 2025/26, ond mae gobaith y bydd modd dod o hyd i ragor o gyllid i ehangu'r rhaglen i gynnwys hyfforddiant eraill megis Cymorth Cyntaf yn y Gwaith a Hylendid Bwyd Sylfaenol. Fodd bynnag, caiff ymgynghoriad ei gynnal yn gyntaf i weld beth sydd ei angen ar y gymuned.**

**5. Cais gan breswylwyr ym Mharc Crescent am ddrych i helpu gyda thynnu allan ar Ffordd yr Orsaf. Mae hyn wedi'i geisio amdano'n flaenorol ac wedi'i wrthod gan CBS Conwy yn sgil ystyriaethau diogelwch. Ni chaiff drychau eu caniatáu ar ffyrdd cyhoeddus yn y DU yn gyffredinol oherwydd peryglon diogelwch megis goleuni'n adlewyrchu, camfarnu cyflymder cerbydau a fandaliaeth neu ddifrod posibl.**

**<u>Penderfynwyd derbyn a nodi</u>**

**Daeth y cyfarfod i ben am 9:36yh**